malwod hyn, nad ydynt fwy na 3mm o ran eu maint, yn arbennig o hawdd i arbrofi arnynt, ond bydd Eva yn ymweld â gwlad Pwyl y flwyddyn nesaf i weithio gydag arbenigwraig yn y maes, Dr Beata Pokryszko.

Dr P. Graham Oliver, Ceidwad yr Adran Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol, Amgueddfa ac Oriel Cenedlaethol Caerdydd

Chwilio am Lychlynwyr Môn

Mae ffynonellau hanesyddol yn cofnodi cyfres o ymosodiadau dychrynllyd gan ysbeilwyr o Lychlyn ar arfordir Prydain, Ffrainc ac Iwerddon o ddegawd olaf yr 8ed ganrif ymlaen. Yn groes i rannau eraill o Brydain, llwyddodd Cymru i beidio ag ildio tir i'r goresgynwyr hyn. Digwyddodd y cyrch cyntaf i'w gofnodi ar Gymru yn 852 ac mae'r brutiau'n cofnodi cyrchoedd gan Lychlynwyr ar Fôn a Gwynedd o 854 ymlaen. Arweiniodd Rhodri Mawr, tywysog Gwynedd (844-78) yr ymgyrch yn erbyn yr ymosodiadau cynnar hyn, gan ladd yr arweinydd Danaidd Gorm yn 855. Yn 903 daeth Llychlynwyr a yrrwyd o Ddulyn i Fôn o dan arweinyddiaeth Ingimund. Yn ôl croniclau Cymru ac Iwerddon, methasant ag ennill tir yng Nghymru, ac ar ôl eu gyrru allan trwy rym arfau, hwyliasant yn eu blaenau i Gaer. Unwaith eto, anrhaethwyd Mon yn 918 gan y *Cenhedloedd Duon* (term cyfoes am Lychlynwyr) o Ddulyn. Gwelodd

The Quest For Anglesey Vikings

Historical sources record a series of terrifying attacks by Viking marauders from the last decade of the 8th century on the coasts of Britain, France and Ireland. In contrast to the other areas of Britain, Wales successfully resisted yielding land to these invaders. The first recorded raid on Wales occurred in 852 and annals record attacks by Vikings on Anglesey and Gwynedd from 854 onwards. Rhodri Mawr, ruler of Gwynedd (844-78), led resistance to these early onslaughts, killing the Danish leader Gorm in 855. In 903 Vikings led by Ingimund came to Anglesey after expulsion from Dublin. According to both Irish and Welsh annals they failed to gain a foothold in Wales, and being forcibly expelled, they sailed on to Chester. Again in 918, Anglesey was ravaged by *Men of Dublin*, also known as *black gentiles* (a contemporary term for Vikings.) The second half of the 10th century also witnessed frequent attacks on the island; Olaf of Dublin built a castle known as 'Olaf's Castle' or 'Castell Bon y Dom' about the year 1000. His grandson, Gruffudd ap Cynan, came from the Danish community in Dublin to re-establish the old line of Rhodri in Gwynedd in the later 11th century.

The one-sided historical record of Vikings terrorising the land, perpetuated by the Victorian romantic reinvention of the Vikings, has now been transformed by archaeology. Viking

ail hanner y ddegfed ganrif hefyd ymosodiadau mynych ar yr ynys; adeiladodd Olaf o Ddulyn gastell a adwaeinid wrth yr enw 'Castell Olaf' neu 'Castell Bon y Dom' tua'r flwyddyn 1000. Daeth ei ŵyr, Gruffudd ap Cynan, o'r gymuned Ddanaidd yn Nulyn i ailsefydlu hen linach Rhodri yng Ngwynedd ar ddiwedd yr 11eg ganrif.

Gweddnewidiodd archeoleg bellach y cofnod hanesyddol unochrog o Lychlynwyr yn hau braw a dychryn trwy'r wlad, a hyrwyddwyd gan y Fictoriaid wrth iddynt ailgreu'r Llychlynwyr ar ddelw rhamantaidd. Roedd cysylltiad y Llychlynwyr â Chymru yn sicr yn un gelyniaethus a chiaidd ar brydiau, ond gweld eu cyfle a wnaent yn aml. Mewn rhai ardaloedd, ymsefydlodd y Llychlynwyr yn ffermwyr heddychlon, ac mae archeoleg yn cynnig tystiolaeth am eu gweithgareddau fel gwladychwyr, masnachwŷr a chrefftwyr medrus.



Broits Sacsonaidd ar ffurf pen aderyn, sy'n ein hatgoffa am gysylltiadau â Northymbria yn y cyfnod cyn y Llychlynwyr
Saxon bird-headed brooch, a reminder of pre-Viking contact with Northumbria

Erys natur yr anheddu Llychlynaidd yn Nghymru yn un o ddirgelion archeoleg yr oesoedd canol cynnar, yn arbennig felly ar Fôn, yr oedd ei safle daearyddol ar hyd echel fasnach Dulyn-Caer-Caerefrog yn dod â hi yn hanesyddol o fewn ffiniau'r byd Gwyddelig-Nordig. Pwysleisir hyn o olrhain 'diwrnod o hwylio' y Llychlynwr o Ynys Manaw, Dulyn, Caer a Chilgwri: mae pob llwybr yn croesi yn nyfroedd Môn. Mae arwyddion materol o bresenoldeb y Llychlynwyr yng Nghymru yn llai amlwg fyth. Yn sicr, mae'r enwau lleoedd sydd o darddiad Scandinafaidd a roddwyd ar nodweddion amlwg yr arfordir yn gymorth mordwyo yn arwydd bod y Llychlynwyr yn gyfarwydd â Môn. Er enghraifft, *Onguls-ey* ei hun, y credir yn draddodiadol ei fod yn ymgorffori enw personol - arweinydd Llychlynaidd, fe dybir; *The Skerries, Piscar, Priestholm (prestaholmr)* ac *Osmond's Air* ger Biwmares, o *Asmundr* a *eyrr,* bancyn o raean ger y môr.

Dadorchuddio Tystiolaeth am y Llychlynwyr

Mae gofyn i ni droi at archeoleg er mwyn cael darlun cyfoes di-duedd o Gymru yn Oes y Llychlynwyr. Dosberthir y celciau o arian Llychlynaidd y gwyddys amdanynt yng Nghymru ar hyd yr arfordir. Cafwyd dau gelc o'r fath ar safle mynachdy Deiniol Sant ym Mangor, un a gladdwyd tua 925, a chasgliad bychan o ddarnau arian a gladdwyd tua 970. Cladwyd y celc diweddarach o ddarnau arian a gafwyd ym Mryn Maelgwyn ger Llandudno tua chanol y 1020au, ac mae'n bosibl mai ysbail Llychlynaidd yw hon yn hytrach na chynilion lleol.

Daethpwyd o hyd i drysor arbennig iawn o bum breichdorch arian o Oes y Llychlynwyr o fath Gwyddelig-Nordig yn y 19eg ganrif ar ochr dde-ddwyreiniol Traeth Coch ym Môn. Cysylltwyd y grŵp hwn â'r trysor a ganfuwyd yn Cuerdale (Swydd Gaerhirfryn) (*tua.* 905) gyda digwyddiadau sy'n gysylltiedig â gyrru Ingimund o Ddulyn.

O bryd i'w gilydd deuir ar draws darganfyddiadau unigol, fel pwysynnau masnachwyr, a bachau i gau clogynau o'r enw pinau pen cylch. Mae'n debyg y daeth dyrnfol cleddyf eithriadol Smalls Reef, a addurnwyd â bwystfilod ac anifeiliaid tebyg i nadroedd yn null Urnes o ryw 1100, o long o fath Llychlynaidd a suddwyd ar y daith rhwng Iwerddon a Chymru.

Ym 1945 daethpwyd ar draws bedd dyn ar esgair dywodlyd gyferbyn â thraeth Benllech. Arwyddai nifer o hoelion haearn a chrib o gorn carw yn y bedd gladdedigaeth o Oes y Llychlynwyr. Ai dyma un o'r genhedlaeth gyntaf o Lychlynwyr a phaganiaid i ymgartrefu ar Fôn? Dim ond gwaith pellach all ddangos i ni. Gellir

contact was certainly hostile and brutal at times, but often opportunist. In some areas, the Norse rapidly settled as peaceful farmers, and archaeology has provided evidence for them as colonisers, merchants, and skilled craftsmen.

The nature of Viking settlement in Wales remains one of the mysteries of early medieval archaeology, none more so than on Anglesey, whose geographical position along the Dublin-Chester-York political and trade axis brought her historically into the 'Hiberno-Norse' world. This is emphasised when one plots the Viking measurement of 'a day's sail' from the Isle of Man, Dublin, Chester and the Wirral, all arcs intersecting in Anglesey waters. Physical indications of Viking presence in Wales are even less tangible. Certainly, Viking familiarity with Anglesey is demonstrated by the place-names of Scandinavian origin which have been given to prominent coastal features as navigational aids: *Onguls-ey* itself, traditionally thought to incorporate a personal name - presumably a Viking leader, *The Skerries, Piscar, Priestholm (prestaholmr)* and *Osmond's Air* near Beaumaris, from *Asmundr & eyrr*, a gravel bank near the sea.

Uncovering evidence for Vikings

For an unbiased contemporary picture of Viking Wales, we have to turn to archaeology. The distribution of known hoards of Viking

Cymryd samplau o'r aelwyd yn adeilad 1 at ddiben dyddio archeomagnetig
The hearth in building 1 being sampled for archaeomagnetic dating

olrhain ffasiynau Llychlynaidd diweddarach yn y gymuned Gristnogol ar Fôn o hyd yn yr arddulliau addurniadol sydd i'w gweld ar beth o'r gwaith cerrig, fel y groes o'r 10ed ganrif ym Mhenmon. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd a nodwyd mewn ardaloedd eraill hefyd i ymgyfuno'n heddychlon yn ystod y 10ed ganrif gyda'r boblogaeth frodorol.

silver in Wales is coastal in character. The site of St Deiniol's monastery at Bangor has produced two hoards, one deposited about 925, and a small group of coins deposited *c.* 970. The later Bryn Maelgwyn hoard of coins near Llandudno was deposited in the mid-1020s, and may be Viking booty rather than local savings. A remarkable hoard of five complete Viking silver arm rings of

Drylliau o ingotiau arian a breichdorchau o fath Gwyddelig-Nordig o'r 10ed ganrif
Fragments of silver ingots and arm-rings of 10th-century Hiberno-Viking type

Yr anheddiad o Oes y Llychlynwyr yn Llanbedrgoch

Ceir un o'r aneddiadau mwyaf diddorol o'r cyfnod hwn ar Ynys Môn. Mae gwaith maes a gyflawnwyd gan yr Adran Archeoleg a Nwmismateg er 1994 yn dechrau newid y ffordd yr ydym yn synio am oes y Llychlynwyr yng Nghymru.

Darganfuwyd y safle ym 1994 wedi i nifer o ddarganfyddiadau a wnaed trwy gyfrwng canfyddwyr metel gael eu dwyn i'r Amgueddfa i'w henwi. Roedd y rhain yn cynnwys ceiniog Eingl-Sacsonaidd o gyfnod Cynethryth (787-792), ceiniog o gyfnod Wulfred o Gaergaint (*tua.* 810), ceiniogau Carolingaidd o gyfnodau Louis Dduwiol a Siarl Foel, a thri phwysyn plwm o deip Llychlynaidd.

Cam cyntaf y gwaith maes oedd archwilio'r caeau trwy gyfrwng arolwg geoffisegol a chloddio. Yn y cae lle daethpwyd o hyd i'r pwysynnau Llychlynaidd cafwyd bod ffos yn amgylchynnu ardal siap-U helaeth ar oleddf graddol a wynebai tua'r de, i gyfeiriad Traeth Coch. Gwelwyd bod y ffos wedi ei chloddio i'r graig mewn mannau, a rhyw 2m o led ac 1m o ddyfnder; cafwyd nifer o ddyddiadau a rychwantai'r 5ed ganrif i'r 11eg ganrif trwy ddyddio radio carbon y siarcol o'i llenwad. Trwy gloddio i ganolbwynt gweithgaredd magnetaidd a gofnodwyd yn ystod yr arolwg

Hiberno-Norse type was found in the 19th century on the south-eastern side of Red Wharf Bay, Anglesey. This group and the Cuerdale (Lancs.) hoard (*c.* 905) have both been associated with events surrounding the expulsion of Ingimund from Dublin.

Isolated finds are occasionally made in Wales, such as merchants' weights, and cloak fasteners called ringed pins. The remarkable Smalls Reef sword guard, decorated with beasts and snake-like animals in Urnes style of about 1100, probably came from a vessel of Norse type lost *en route* between Ireland and Wales.

In 1945 the grave of an adult male was found on a sandy ridge facing Benllech sands. A number of iron nails and an antler comb found in it pointed to the Viking Age. Was he one of the first generation pagan Viking settlers on Anglesey? Only further work will tell. Later Viking fashions within the Christian community on Anglesey can still be traced in the decorative styles appearing on some stonework, such as the 10th-century cross at Penmon. This reflects a trend recorded elsewhere of peaceful integration during the 10th century with native populations.

The Viking Age settlement at Llanbedrgoch

The island of Anglesey is the location of one of the most intriguing settlement complexes belonging to this period. Fieldwork by the Department of Archaeology & Numismatics since 1994 is starting to change our perception of Viking Age Wales.

The site was discovered in 1994 after a number of metal detector finds had been brought to the Museum for identification. These included an Anglo-Saxon penny of Cynethryth (787-792), a penny

daethpwyd o hyd i bystdyllau a dorrwyd yn y creigwely mewn ardal lle cafodd y dir ei lyfnu'n gyffredinol. Credir mai llwyfan i dŷ oedd hwn.

Ers hynny buwyd yn cloddio yn bennaf mewn tri man, ac mae hanes cymhleth y safle yn dechrau dod i'r golwg. Mae'n debyg y bu ffynnon dŵr croyw ger terfyn isaf y safle yn ganolbwynt gweithgaredd mor bell yn ôl â *thua*.3300CC yn ystod Oes Newydd y Cerrig, cyfnod, credir, pryd y codwyd y rhan fwyaf o'r siambrau claddu ar ynys Môn. Gwelir tystiolaeth am weithgaredd yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid ar ffurf llond llaw o ddarganfyddiadau llai hwnt ac yma ar y safle, ac mae gwaith cloddio wedi datgelu dwsin o deilchion treuliedig o grochenwaith Rhufeinig. Cafwyd dyddiadau radio carbon ar gyfer sawl nodwedd o *tua* 240 i 450OC.

Cloddio yn adeilad 1 ym 1997.
Excavation in progress on building 1 in 1997.

Gellir rhannu'r gweithgaredd yn y cyfnod canoloesol cynnar i nifer o gyfnodau. Cadarnhawyd y cloddwyd y ffos a amgylchynnai'r anheddiad cyn cyfnod y Llychlynwyr, trwy astudio'r gwrthrychau sy'n gysylltiedig â hi. Mae'n debyg y perthyn neuadd fawr o bren, y gwelir ei hôl ar ffurf pystbyllau mawr ynghyd â phystdyllau llai ar eu hochr ogleddol, i'r cyfnod hwn. Mae'n bosibl bod y pyst hyn yn dangos ôl ochr ogleddol neuadd eiliog.

Ymddengys y disodlwyd yr adeilad pren hwn yn hwyr yn y 9ed ganrif neu ar ddechrau'r 10fed ganrif gan o leiaf ddwy neuadd betryal gyda sylfeini cerrig.
Cadarnhaodd dyddio archeomagnetig ar leinin clai aelwyd ganolog y neuadd-dy a'i lawr isel (adeilad 1) y'i defnyddiwyd am y tro diwethaf rhywdro rhwng *tua* 890 a 970. Roedd yr adeilad hwn gyfoes â'r ysgubor neu'r neuadd fawr isel ei llawr oedd yn union i'r dwyrain iddo. Dyddiwyd llenwadau hon trwy ddadansoddi radio carbon i tua 855-1000. Gorweddai'r adeilad petryal mwy ei faint hwn yn unionsgwar, bron, ag adeilad 1, ac ymddengys ei fod yn mesur o leiaf 8m o led a 12m o hyd.

Nodai palmant cerrig i'r gorllewin i adeilad 1 safle'r mynediad i drydydd adeilad isel ei lawr. Ymddengys bod gwaith aredig wedi dinistrio unrhyw dystiolaeth glir am furiau'r hyn oedd, mae'n debyg, yn adeilad petryal ychydig yn llai na'r lleill. Ymhlith y darganfyddiadau a gafwyd yn y pridd du a orchuddiai'r llawr isel roedd bwcl efydd cain o fath o'r 10ed ganrif a llafn haearn i gyllell gyda chefn onglog, a gadarnhâi ei fod gyfoes ag adeiladau 1 a 2.

Wrth ymyl ddwyreiniol y lloc, caed banc a phalis o fewn ffos uwchben ffos gynharach. Gorweddai nifer sylweddol o esgyrn anifeiliaid ac amrywiaeth o arteffactau o fewn tomen ddwfn o bridd du (tomen sbwriel) yng nghornel de-orllewinol y safle. Ymhlith y rhain roedd *styca* (ceiniog) Northymbraidd o aloi copr o gyfnod yr Archesgob Wigmund (tua 848-58), offer haearn â socedau ar gyfer gwaith lledr, gosodiadau a chenglau bwced.

of Wulfred of Canterbury (*c.* 810), 9th-century Carolingian deniers of Louis the Pious and Charles the Bald, and three lead weights of Viking type.

The first stage of the fieldwork was an examination of the fields by geophysical surveying and excavation. In the field producing the Viking weights a ditch was found enclosing a large U-shaped area on a gentle slope facing south, in the direction of Red Wharf Bay. The ditch was found to be rock-cut in parts, and about 2m wide and 1m deep; a range of dates from the 5th to the 11th century were obtained by radiocarbon dating of charcoal from its fills. Excavation of a 'hot spot' of magnetic activity recorded during the survey uncovered post-holes cut into bedrock within an area of general levelling, thought to represent a house platform.

There have since been three main areas of excavation, and the complex history of the site is becoming apparent. A freshwater spring at the lower perimeter of the enclosure appears to have been a focus of activity from as early as *c.* 3300 BC in the Neolithic, a period when most of the burial chambers on Anglesey are thought to have been built. Activity during the Roman period is represented by a scatter of smaller finds, and excavations have produced a dozen worn sherds of Roman pottery, and radiocarbon dates for several features from *c.* AD 240 to 450.

Early medieval activity can be subdivided into a number of phases.
Pre-Viking construction of the ditch enclosing the settlement has been confirmed by artefacts associated with it. It is to this phase that a large timber hall, represented by large post pits paired with smaller post holes on their north sides, probably belongs. These posts perhaps represent the north side of an aisled hall.

This timber building appears to have been replaced in the late 9th or early 10th century by at least two rectangular halls with stone footings. Archaeomagnetic dating of the clay lining of the well-preserved central hearth of the sunken floored hall-house (building 1) established that it was last used between about 890 and 970. The building was contemporary with the large sunken floored hall or barn (building 2) immediately to the east of it, whose fills have been dated by radiocarbon analysis to *c.* 855-1000. This larger rectangular building lay almost perpendicular to building 1, and appears to have measured at least 8m in width by 12m in length.

An area of stone paving to the west of building 1 marked the position of the entrance to a third sunken-floored building. Ploughing appears to have removed any clear evidence for the walls of what was probably a slightly smaller rectangular building. Finds within black earth covering the sunken floor included a fine bronze buckle of 10th-century type and an iron knife blade with

Ymddengys bod yna un cyfnod strwythurol olaf, fan leiaf, pan adeiladwyd adeilad mawr sgwâr, gydag aelwyd ganolog wedi ei chodi rhyw fymryn. Mae'n ddiweddarach nag adeiladau 1 a 2 ac efallai ei fod wedi ei alinio ar sawl ffos sy'n torri trwy'r nodweddion cynharach (a ddyddiwyd *tua* 900-1080). Ymddengys i'r ardal wedyn fynd yn ôl at ddefnydd amaethyddol, ac ymhen amser diddymodd hyn holl olion yr anheddle oddi ar wyneb y tir.

Mae'r gwrthrychau sy'n gysylltiedig â'r cyfnod pan y bu pobl yn byw ar y safle wedi eu cadw yn hynod o dda. Dyma un o'r casgliadau mwyaf o'r dyddiad hwn o Gymru, ac maent yn cynnig awgrymiadau i ni am y ffordd y defnyddiwyd y drefedigaeth hon o Oes y Llychlynwyr. Mae pwysynnau'r masnachwyr, yr arian a'r olion o weithgareddau crefft yn dangos ei fod yn rhan o economi a gwleidyddiaeth yr ardal. Cafwyd tystiolaeth am ffermio yn y 10ed ganrif ar y safle (efallai ei fod yn ganolfan i ystad oedd yn agos at y tir amaeth gorau), ac ymddengys bod y trigolion yn byw ar ffermio cymysg ynghyd â physgota. Fel y safloedd mewn mannau eraill, fe'i lleolwyd mewn man cysgodol a ddewiswyd yn ofalus - ar godiad tir gyda ffynnon wrth ei waelod, rhyw 1000m o'r mor, ac ar y ffordd o harbwr cysgodol Traeth Coch.

Mae tystiolaeth ar ffurf darnau arian a phethau eraill yn awgrymu y caed cyfnod cynnar o dwf economaidd yn Llanbedrgoch o ddiwedd yr 8ed ganrif ymlaen. Yn y 10ed ganrif, ymddengys bod yr anheddle ar ei anterth, bod yno fedi cnydau, cadw da byw, artistiaid a chrefftwyr, a chysylltiadau â masnachwyr Llychlynaidd a ddeuai yno dros y môr. Digwyddodd hyn ar yr adeg y bu cynnydd meteorig mewn bathu yng Nghaer, a chysylltiadau cynyddol gyda Manaw a Dulyn. Gwelir ôl digamsyniol yr arddull Wyddelig-Nordig sy'n nodweddu ardal Môr Iwerddon ar rai o'r gwrthrychau a ganfyddwyd ar y safle. Dengys arian mal (arian ar ffurf darnau o dlysau ac ingotiau wedi'u hollti) a gafwyd yn y lloc bod arian yn cylchredeg ar ffurf arian treigl ar ynys Môn o fewn economi bwliwn y byd Gwyddelig-Nordig, ac ymddengys y bu'r safle yn gweithredu fel marchnad dymhorol gyda chrefftwyr crwydrol, a chanddynt efallai fodd i brynu nwyddau i'w cyfnewid trwy eu cysylltiadau ag arglwydd Gwynedd. Ymddengys mai'r lloc yn Llanbedrgoch yw'r allwedd i ddatrys cyfrinachau pellach gan ddatgelu cymeriad anheddu oes y Llychlynwyr, a fu'n benbleth i ysgolheigion ers degawdau.

Dr Mark Redknap, Arbenigwr ar yr Oesoedd Canol, Adran Archeoleg a Nwmismateg, Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd

angled back, confirming that it was contemporary with buildings 1 and 2.

On the east side of the enclosure, an early ditch was overlain by a bank and palisade within a later ditch. A deep build-up of black earth (rubbish dump) at the south-west corner of the enclosure contained large quantities of animal bone and a range of artefacts, including a copper alloy Northumbrian *styca* (penny) of Archbishop Wigmund (*c.* 848 - 58), socketed iron tools for leatherwork, mounts and bucket bindings.

There appears to be at least one final structural phase, involving the construction of a large square building, with a slightly raised central hearth. It post-dates buildings 1 and 2 and may be aligned on several ditches which cut through the earlier features (dated *c.* 900-1080). The area then appears to have reverted to agriculture, which in time removed all surface traces of the former settlement.

The objects associated with the occupation of the enclosure are remarkably well preserved. Forming one of the largest assemblages of this date from Wales, they reveal clues as to the function of the Viking Age settlement. The merchants' weights, silver and traces of craft activities indicate that it formed part of the economy and politics of the area. The site has produced evidence for farming in the 10th century (perhaps as an estate centre close to the best arable land), and it appears to have subsisted on mixed farming supplemented by fishing. Like sites elsewhere, it is situated on a carefully selected, sheltered location on a rise with a spring at its base, about 1000m from the sea, astride a traffic route from the sheltered haven of Red Wharf Bay.

Coin and other evidence suggests an early period of economic growth at Llanbedrgoch from the late 8th century. In the 10th century, the settlement appears to have been at its peak, with harvesting of crops, keeping of livestock, the presence of artisans and craftsmen, and contact with Viking merchants arriving in ships. This coincides with the meteoric rise in the volume of minting at Chester, and growing contact with Man and Dublin. Some objects recovered from the enclosure bear the unmistakable mark of the Hiberno-Norse style typical of the Irish Sea area. Hacksilver (silver in the form of cut pieces of jewellery and ingot) recovered from within the enclosure shows that silver circulated on Anglesey as currency within the bullion economy of the Hiberno-Norse world, and it appears likely that the site may have operated as a seasonal market place with itinerant craftsmen, perhaps with access to tradable commodities via the ruler of Gwynedd. The enclosure at Llanbedrgoch appears to be the key to unlock further secrets and reveal the nature of Viking Age settlement which has perplexed scholars for decades.

Dr Mark Redknap, Medievalist, Department of Archaeology & Numismatics, National Museum & Gallery Cardiff